



yr Athro

Buddugoliaeth!

Mae ymgyrch UCAC i sicrhau bod Llywodraeth San Steffan yn talu'n gydradd i Gymru ac i Loegr i ariannu codiad cyflog athrawon wedi llwyddo.

Gofynnodd yr Undeb am eich cefnogaeth dros yr haf a ddechrau mis Medi wrth i ni ymgyrchu i sicrhau cyflogau teg i athrawon Cymru. Roedd swyddogion yr Undeb yn trafod ar lefel San Steffan, Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol.

Diolch i gynifer ohonoch chi am anfon cardiau post at eich Aelod Seneddol yn pwysu am weithredu ar y mater. Bu hyn yn weithred effeithiol i ddwyn pwysau ar San Steffan i sicrhau'r cyllid priodol ar gyfer cyflogau athrawon Cymru.

Mae'r Adran Addysg yn San Steffan bellach wedi cyhoeddi arian ychwanegol i Gymru ac rydym yn diolch yn arbennig i Ben Lake AS (Plaid Cymru) a Jonathan Edwards AS (Plaid Cymru) am godi'r mater ar nifer o achlysuron gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Alun Cairns AS, gyda'r Trysorlys a gyda'r Prif Weinidog ei hun.

Diolch i chi am eich cefnogaeth – braf iawn yw gallu dathlu llwyddiant.

Rhagor o newyddion ynghylch y codiad cyflog ar dudalen 3



Cyflogau Addysg Bellach

Wrth fynd i'r wasg, mae UCAC ac undeb UCU yn y broses o gynnal balot ymhlith eu haelodau yn y sector addysg bellach ynglŷn â gweithredu diwydiannol ynghylch cyflog.

Gwnaed hawliad am godiad cyflog o 7.5% neu £1,500 (pa bynnag sydd fwyaf) gan yr undebau ar y cyd – codiad tâl yn uwch na chwyddiant er mwyn ceisio dechrau mynd i'r afael â'r cwmpw yng ngwerth cyflogau yn y sector dros y degawd diwethaf.

Gwrthodwyd yr hawliad gan fudiad cyflogwyr addysg bellach, sef ColegauCymru. Dywedwyd mai 1% oedd y cynnig terfynol - cynnig cryn dipyn llai nag athrawon ysgol eleni.

Nododd ColegauCymru yn ogystal os nad oedd yr undebau am dderbyn yr 1% o godiad cyflog na fyddent yn fodlon trafod unrhyw bolisiau eraill gyda'r undebau, er enghraifft polisi llwyth gwaith, a graddfa genedlaethol i staff cymorth.

Dyddiad cau'r balot yw 24 Hydref a rhoddwn wybod y canlyniad i aelodau Addysg Bellach yn syth.

DYFYARNIAD CYFLOG ATHRAWON / TEACHERS' PAY AWARD	
2018-2019	
Annywyl Ar y 24 Gorffennaf, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, Damian Hinds, godiad cyflog yn amrywio o 1.5% - 3.5% ar gyfer athrawon ac arweinyddion ysgol yng Nghymru a Lloegr. Ar yr un pryd cyhoeddodd gefnogaeth ariannol gan yr Adran Addysg i ysgolion yn Lloegr ar ruf grant cyflog athrawon o £187m (2018-19) a £321m (2019-20), o gyllidau presennol yr Adran. Nid oedd unrhyw gyhoeddiad am gyllid i gefnogi ysgolion yng Nghymru i weithredu'r codiad cyflog, er nad ydych chi'n cyfrifoldeb dros gyflogau wedi ei ddatganoli ar gyfer dyfarniad 2018-19. Rwyf i'n ffaith ei bod hi'n ddyletswydd ar y Trysorlys i ariannu'r dyfarniad cyflog hwn yn llawn i athrawon ac arweinyddion yng Nghymru a Lloegr. Gofynnaf, felly, i chi, fel fy Aelod Seneddol i ystyried ar fyfyrder yn y mater ddiarffol hwn, gan gwrdd â'r Trysorlys i ariannu'r dyfarniad cyflog yn llawn ar gyfer ein hysgolion. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb. Yn gywir ENW: NAME	On 24 July, Damian Hinds, the Secretary of State for Education, announced a pay award of between 1.5% - 3.5% for teachers and school leaders in Wales and England for 2018-2019. He also announced financial support from the Education Department's current budget to support schools in England, in the form of a pay grant of £187m (2018-19) and £321m (2019-20). There was no announcement about finance to support schools in Wales to implement the pay award, despite the fact that teachers' pay for the 2018-19 academic year is not devolved. I believe it is the Treasury's responsibility to fully finance this pay award for teachers and leaders in Wales and England, I therefore ask you, as my Member of Parliament, to intervene as a matter of urgency and call on the Treasury to finance fully the pay award for our schools. I look forward to receiving your reply. Yours sincerely LLOFNOD-SIGNATURE

Ffarwelio ag Elaine

Cafwyd wythnos i'w chofio yn yr Eisteddfod
Genedlaethol ym Mae Caerdydd ym mis Awst.

Roedd gan UCAC stondin yng nghysgod y Senedd a llu o ymwelwyr drwy'r wythnos – a phawb wedi synnu ar yr ochr orau at lwyddiant a mwynhad yr Ŵyl yn y Bae. Diolch i bawb alwodd draw i'n gweld neu a fu'n helpu ar y stondin.

Ar y dydd Gwener, cawsom gyfle i weld Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC yn cael y fraind o'u hurddo i'r Orsedd, dan yr enw Elaine Bryn Henllys. Roedd yn braf gweld ei gwaith aruthrol dros y deuddeg mlynedd a mwy diwethaf yn cael ei gydnabod - yn wasanaeth i UCAC ac i undebaeth, ac yn bencampwr dros athrawon ac addysgwyr o bob math yng Nghymru - ar lefel unigol a thorfol.

Nes ymlaen y diwrnod hwnnw – ar ôl i
Eisteddfodwyr gael y cyfle i groesawu Geraint



Elaine Bryn Henllys

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Roger Vaughan

Is-Lywvdd: Julia James


Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young

Cydlynnydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.



Englyn gan Iwan Bryn James, wedi'i lythrennu gan Tegwyn Jones



Codiad Cyflog – o'r diwedd

Wedi hir, hir ymaros, daeth penderfyniad gan Lywodraeth San Steffan ynghylch cyflogau athrawon ar gyfer 2018-19.

Nid oedd y penderfyniad yn cyd-fynd ag argymhellion y 'School Teachers' Review Body' (STRB) sef ychwanegu 3.5% i isafswm ac uchafswm pob ystod cyflog.

Yn gryno, y penderfyniad yw:

- **+3.5% i isafswm ac uchafswm y Brif Ystod Cyflog** gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n penderfynu rhoi'r 3.5% i bob pwynt cyflog (h.y. M1-M6)
- **+2% i isafswm ac uchafswm yr Ystod Gyflog Uwch a lwfansau** gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n

penderfynu rhoi'r 2% i bob pwynt cyflog (h.y. U1-U3)

- **+1.5% ar gyfer yr Ystod Gyflogau Arweinyddiaeth** gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n penderfynu rhoi'r 1.5% i bob pwynt cyflog

Mae manylion pellach ar gael yn ein taflen wybodaeth 'Cyflogau Athrawon 2018-19'



Datganoli Tâl ac Amodau Gwaith – gobaith o wella'r drefn

Roedd 30 Medi 2018 yn ddiwrnod hanesyddol.

Yn dawel bach, a heb llawer o ffanfer, datganolwyd y pwerau dros dâl ac amodau gwaith athrawon i Gymru. A dyna benllanw degawdau o waith lobio ac ymgyrchu i genedlaethau o aelodau a swyddogion UCAC.

Ond, mewn gwirionedd, nid dyna ddiwedd y gwaith - i'r gwrthwyneb, nawr gallwn ni ddechrau cael y maen i'r wal!

Mae ffurf gyffredinol y mecanwaith Cymreig wedi'i benderfynu, ond mae llawer o elfennau eto i'w rhoi yn eu lle. Caiff Corff Adolygu Cymru ei sefydlu (ar batrwm y *School Teachers' Review Body*) - disgwylir i benodiadau gael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf. Ac mae rôl gryfach gan yr undebau llafur ym mhroses Cymru nag sydd wedi bod yn y broses Cymru-a-Lloegr, wrth gael bod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch y cylch gorchwyl sy'n cael ei roi i'r Corff Adolygu.

Mae UCAC yn gweithredu ar hyn o bryd i sicrhau bod pob elfen yn ei lle cyn gynted â phosib – er mwyn dechrau ar y gwaith a gwneud argymhellion yn brydlon ar gyfer eu gweithredu ym mis Medi 2019.

Edrychwn ymlaen at gyfnod newydd, cyffrous yn llawn posibiliadau ar gyfer gwella'r drefn ar gyfer athrawon Cymru – gyda phenderfyniadau wedi'u gwneud yng Nghymru ar gyfer system addysg Cymru.

Ariannu



Er bod Llywodraeth San Steffan wedi cytuno i ariannu codiad cyflog athrawon Cymru ar yr un sail ag athrawon yn Lloegr (gweler y stori dudalen flaen), mae pryderon mawr yn parhau ynghylch cyllidebau addysg.

Y gwirionedd yw bod Llywodraeth San Steffan wedi ariannu'r codiad cyflog **ar ôl yr 1% cyntaf**. Felly mae angen i'r 1% cyntaf ddod allan o gyllidebau addysg presennol. Ar yr un pryd, bydd cyfraniadau pensiwn yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn llunio'i chyllideb ar gyfer 2019-20, ac er nad yw'r broses honno wedi cyrraedd ei therfyn eto, mae'n edrych fel petai'r setliad ar gyfer Llywodraeth Leol, gan gynnwys cyllidebau addysg ysgolion, yn mynd i fod yn un caled iawn eto

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.




CA4 – Hanes – Patrymau Mudo: Y Cyd-destun Cymreig

Adnodd sy'n cyflwyno'r cyd-destun Cymreig yn yr opsiwn Uned 3: Newidiadau ym Mhatrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw. Mae'r adnodd yn darparu cynnwys manwl a diddorol ar bob agwedd o ymfudiad Cymreig (allanol a mewnol).




trafodwch y cyngor y byddech chi'n ei gynnig cyn cymharu eich syniadau gyda'r rheiny a awgrymir.



CA4 – Daearyddiaeth – Cymhwyso Mathemateg mewn Daearyddiaeth

Mi fydd y fideos byr hyn yn gymorth i fyfyrwyr i ddeall y defnydd o Fathemateg mewn Daearyddiaeth. Maent yn disgrifio'r broses fathemategol gan ddefnyddio data daearyddol. Gall yr adnoddau hyn gael eu defnyddio fel man cychwyn er mwyn datblygu syniadau am gwestiynau dealltwriaeth (AA1.2 CBAC) a chymhwysiad (AA2 CBAC).



CA5 – Senarios Cyfraith

Cronfa o senarios fideo i gefnogi addysgu'r pynciau o fewn y gyfraith. Gwylwch y fideos ac yna



SGILIAU IAITH ATHRAWON

ADNODDAU I DDATBLYGU SGILIAU IAITH YN Y GYMRAEG

www.collegymraeg.ac.uk/sgiliauathrawon

AP NEWYDD

CASGLIAD O ADNODDAU RHYNGWEITHIOL ARBENNIG I DDATBLYGU AC YMARFER SGILIAU IAITH YM MAES ADDYSG

Byddant o ddefnydd i unrhyw un sy'n gweithio yn y maes sydd â diddordeb i ymarfer a datblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg.

LAWRLWYTHA!

AR GAEL YN RHAD AC AM DDIM AR GYFER DYFEISIAU ANDROID AC IOS

Chwiliwch am yr ap Sgiliau Iaith Athrawon yn yr App Store/Play Store neu sganiwch y cod QR gyda chamera dy ffôn.

ap Dewin a Doti

FREE AM DDIM

Mae Ap newydd Dewin a Doti ar gael AM DDIM o'r App Store neu Googleplay – chwiliwch am 'Dewin a Doti' neu sganiwch y cod QR yma Dewin a Doti App – Available FREE from the App Store or Googleplay – search for Dewin a Doti or scan this QR code

★ 4 stori lawm gydag animeiddio a darlwydd
4 full stories with animation and narration